# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2006 09 Medi Cofnodion

CYNGOR CYMUNED Y BETWS

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 13eg o Fedi 2006 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Henadur Arnallt D James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, June Gunter, Loreen Lewis, Annette Price, Peter Cowell, Delyth Richards, Carwyn James, Keith Rees, E Audrey Jones a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Dim.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 12fed O ORFFENNAF 2006.
Roedd gan y Cynghorwr Delyth Richards newidiad i wneud ynglyn â'r cofnodion Cymraeg - tudalen 1, dylai ddarllen 'Gorffennaf 2006'.
Awgrymodd y Cynghorwr Sir John D Evans dylai tudalen 2, 4.1 ddarllen fod y 'Datblygwr yn gwneud cyfraniad ynglyn ag Adran 106'.
Roedd gan y Cynghorwr Annette Price newidiad i wneud ynglyn â thudalen 5, 8.2 dylai ddarllen bod 'Amy Hawkins wedi cadarnhau fod y gwasanaeth hwn wedi'i dalu'.
Cytunodd y Cynghorwyr i'r newidiadau.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod cofnodion cyfarfod y 12fed o Orffennaf 2006 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Cais Cynllunio - Datblygiad Preswyl ar Barc Coetir, Betws.
Darllenodd y Clerc ymateb wrth Adran Cynllunio o Gyngor Sir Caerfyrddin. Awgrymodd y Cynghorwr Sir John D Evans fod y Cyngor Cymuned yn gofyn i'r Adran Cynllunio os gall cyfleusterau hamdden gael eu gosod ym Mharc Coetir gan y Datblygwr, oherwydd nid yw'r Datblygwr wedi cydymffurfio gyda'r cais cynllunio. Cadarnhaodd y Cynghorwr Carwyn James ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin i ofyn i'r Adran Cynllunio os gall cyfleusterau hamdden gael eu gosod ym Mharc Coetir gan y Datblygwr.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin.

2.2 Marciau Ffordd ar Heol Iscennen, Rhydaman.
Darllenodd y Clerc ymateb wrth Adran Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin, yn dweud na fedrant ddarparu llythrennau'r ffordd yn Saesneg ac yn Gymraeg oherwydd mae angen i'r llythrennau fod o faint arbennig ar y ffordd ac mae maint baeau parcio'r preswylwyr yn annigonol. Dywedodd y Cynghorwr Delyth Richards fod marciau ffordd dwyieithog ar Heol Talbot yn Rhydaman. Awgrymodd y Cynghorwr Delyth Richards os gallai'r llythrennau ffordd gael eu cwtogi byddai yna le i'r geiriau Cymraeg. Penderfynwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a all y neges ffordd gael ei gwtogi i ymgorffori'r llythrennau Cymraeg.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon ymateb i Rheolwr Gweithrediadau Cyngor Sir

Caerfyrddin.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cyngor Chwaraeon Cymru.
Darllenodd y Clerc ohebiaeth derbyniodd wrth Gyngor Chwaraeon Cymru yn datgan bod y Cyngor Chwaraeon yn edrych am sefydliadau o'r Gymuned. Penderfynodd y Cynghorwyr i ddanfon cyfeiriadau Clwb Pêl-droed Rhydaman a Chlwb Rygbi'r Betws i Gyngor Chwaraeon Cymru.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon manylion Clwb Pêl-droed Rhydaman a Chlwb Rygbi'r Betws i Gyngor Chwaraeon Cymru.

3.2 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol:
1. Cyngor Sir Caerfyrddin
• Cynnydd Egni.
• Cynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin.
• Hysbysiad am gadarnhad o drefn.
• Datblygu iechyd modern a gwasanaeth cymdeithasol i bobl hen Sir Gaerfyrddin - rhoddwyd i'r Cynghorwr June Gunter.
2. Un Llais Cymru
• Strategaeth Hyfforddi Genedlaethol - rhoddwyd i'r Cynghorwr Anne Sizmur.
• Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
3. Cymorth i Ferched yn Rhydaman.
4. Taflen newyddion H.O.W.L.T.A - rhoddwyd i'r Cynghorwr Carwyn James.
5. Panel Beirniadaeth Cymru - Adroddiad Blynyddol 2005/06.
6. Llywodraeth Cynulliad Cymru - rhoddwyd 'r Cynghorwr June Gunter.
7. Dyddiadur y Geid Sara Thomas - rhoddwyd i'r Cynghorwr Menna Roberts.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi rhoi caniatâd i'r ceisiadau canlynol:-
E/13968 - Bloc cawod newydd a stand â gorchudd, Clwb Pêl-droed Rhydaman, Stryd Rice, Betws, Rhydaman (11).
E/13889 - Estyniad dau lawr i ochr y ty, 2 Heol Waungron, Betws (10).
E/14110 - Agor llwybr beic/llwybr troed o Bontaman i Lanaman (13).
E/14134 - Newid arfaethedig i ddefnydd tir i iard beirianneg sifil, ger Gweithdy Peirianneg Aman, Heol Pentwyn, Betws (14).
E/14133 - Distrywio sgubor a'i ailosod gydag estyniad tebyg, Ffarm Gilfach Gower, Heol Argoed, Betws (15).

4.2 Mae Cyngor Cymuned Y Betws yn gwrthwynebu'r cais canlynol:-
E/13986 - Annedd a garej ar wahân, Plot ger Maesifan, Heol Waunddwfn, Betws (12).

4.3 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r canlynol:-
E/13538 - Datblygiad Preswyl, Plotiau 7 & 7A Parc Coetir Rhan 2, Betws (8).
E/13537 - Datblygiad Preswyl, Plotiau 10 & 11 Parc Coetir Rhan 2, Betws (9).
E/12063 - Iard Masnachwr Adeiladwyr, Uned 2 & 3 Heol Maescware, Betws (26/2005/06).
E/13361- Ty gwydr i gefn y ty ger 7 Parc Nant Y Felin, Betws (6).

4.4 Mae gwybodaeth ychwanegol wedi cael ei derbyn wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r cais cynllunio E/10446 - codi 16 Melin Wynt ar Fynydd Y Betws, Rhydaman.

5. CYFRIFON.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod yr Archwiliad Allanol wedi cael ei gwblhau am y flwyddyn 2005/2006 ac nid oedd unrhyw bwynt i'w nodi.
NODWYD: y pwynt uchod.

Anfonebau a dalwyd ym mis Awst

1. Cyngor Sir Caerfyrddin - Goleuo’r Llwybrau Troed £285.30
2. Yswiriant Zurich £374.54

Anfonebau a dalwyd ym mis Medi
3. Amman Valley Enterprise (Prosiect Parc Betws) £11.00
4. Resq (Trwsio Cyfrifiadur y Gymuned) £88.13
5. BDO Stoy Hayward (Archwiliad Allanol) £141.00
6. Lwfans 1af y Gadeiryddes £100.00
7. Rhodd - Mynwent Capel Newydd £150.00
8. Rhodd - Mynwent Dewi Sant £150.00
9. Cynghorwr Anne Sizmur (Betws yn ei Blodau) £35.00
10. Cynghorwr Peter Cowell (Cetrisen Argraffu i Gyfrifiadur y Gymuned) £38.14
11. Resq (Trwsio Cyfrifiadur y Gymuned) £76.38
12. Mr D Jones (Betws yn ei Blodau) £15.00
13. Mr D Jones (Betws yn ei Blodau) £10.00
14. Ms S McLaren (Betws yn ei Blodau) £10.00
15. Mr B Lewis (Betws yn ei Blodau) £10.00
16. Mr P Danter (Betws yn ei Blodau) £10.00
17. Cyflog a Lwfans y Clerc £810.87
18. Treth Incwm y Clerc £177.78
19. Cymdeithas Clerciau Cymuned Leol (Tanysgrifiad) £84.00

CYFANSWM £1917.30
CYTUNWYD: I dalu’r biliau uchod.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn llythyr wrth Fattorini (gof aur ac arian) ynglyn â chadwyn y Gadeiryddes. Adroddodd y Clerc fydd atgyweirio y difrod i’r enamel yn costio £245.95 ac ychwanegu wyth dolen newydd i gwblhau’r gadwyn yn costio £645.76. Nid oedd y Cynghorwyr yn hapus gyda’r pris oherwydd eu bod yn meddwl fod hyn yn gostlus iawn. Gofynnodd y Cynghorwr Keith Rees beth oedd Cynghorau Cymuned eraill yn gwneud. Gofynnodd y Cynghorwyr i’r Clerc i wneud ymholiadau gyda Chynghorau Cymuned eraill i weld beth maen nhw’n gwneud ynglyn â’u cadwyni swyddogol a hefyd bod y Clerc yn edrych ar y rhyngrwyd i weld os oes cwmnïau eraill yn cynnig y gwasanaeth hwn.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda Chynghorau Cymuned Lleol.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 10 trosedd wedi’u cofnodi yn ardal y Betws ym mis Awst.

Bu 242 o bobl ifainc yn bresennol yn y Disgo Glas a gynhaliwyd ym mis Awst. Mae’r Disgos yn cael eu cynnal bob pythefnos. Rhoddodd y Cynghorwr Annette Price ddiolch i’r Heddlu am y gwaith mae’n nhw wedi gwneud i drefnu’r Disgos Glas.

Dywedodd y Cynghorwr Arnallt James fod cerbydau’n dal i fynd yn gyflym ar hyd Heol Maescware. Hefyd dywedodd y Cynghorwr June Gunter wrth PC Jones fod cerbydau yn mynd yn gyflym ar hyd Heol Pentwyn. Cadarnhaodd PC Jones ei fod yn mynd i sôn eto wrth y bartneriaeth cyflymder.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd Y Cynghorwr Sir John D Evans y canlynol:-
1. Arwydd Araf - wedi cael ei ddodi ar Heol y Cyrnol.
2. Goleuadau Stryd ar Heol y Cyrnol - Mae canghennau coed yn rhwystro'r goleuadau ar fynedfa Waungron, mae e’ wedi rhoi gwybod am hyn.
3. Baw Cwn ar y Llwybr Du - Mae e’ wedi gofyn am fins baw cwn. Mae’r Cyngor wedi cytuno rhoi bins ar ddau ben y llwybr.

4. Cysgodfa Bws ar ystâd Treforis - Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno dodi cysgodfa bws newydd ar ystâd Treforis. Mae e' hefyd wedi cwyno am gyflwr y cysgodfa bws ger dy tafarn yr Aradr. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn edrych mewn i'r mater hwn.
5. Cwyn ynglyn â baw cwn ar lwybr troed ger Tesco - Bydd y mater hwn yn cael ei adrodd mewn amser.
6. Llif ar waelod Heol y Cyrnol - mae ymweliad wedi cael ei gynnal, ac mae swyddog Cyngor Sir Caerfyrddin wedi dynodi fod yr afon yn mynd i gael ei chlanhau.
7. Glanhau'r Stryd - mae e' wedi dweud am y broblem hon wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am gopi o gytundeb lefel gwasanaeth y Sir ynglyn ag ysgubo heolydd y Betws.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Betws yn ei Blodau.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cynghorwr Menna Roberts a hithau wedi bod i gyflwyno gwobrau Betws yn ei Blodau i Ysgol y Betws. Roedd y Cynghorwr Anne Sizmur wedi atgoffa'r Cynghorwyr fod Noson gyflwyno Betws yn ei Blodau yn cymryd lle ar ddydd Mawrth y 19eg o fis Medi 2006 am 7 o'r gloch yr hwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Keith Rees os oes modd dosbarthu taflenni am gystadleuaeth Betws yn ei Blodau y flwyddyn nesaf, eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur y syniad hwn a chytunodd y Cynghorwyr.
NODWYD: y pwynt uchod.

Hefyd dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr fod yr elusen 'Betws mewn Angen' wedi rhoi cwpan a hefyd wedi engrafu tarian Cystadleuaeth Betws yn ei Blodau. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod llythyr o ddiolch yn cael ei ddanfon i'r elusen 'Betws mewn Angen' a chytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon llythyr o ddiolch i'r elusen 'Betws mewn Angen'.

8.2 Prosiect Parc Betws.
Roedd y Cynghorwr Annette Price wedi diweddaru y Cynghorwyr am Brosiect Parc y Betws . Esboniodd y Cynghorwr Annette Price i'r Cynghorwyr fod y Cyngor Cymuned wedi ceisio am gymorthdal i wella'r ardal. Hefyd adroddodd y Cynghorwr Annette Price fod 95% o'r cymorthdal yn mynd i ddod o arian grant a bod 5% yn mynd i ddod o Gyngor Sir Caerfyrddin. Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon rhoi rhodd tuag at blanhigion. Cytunodd y Cynghorwyr. Rhoddodd y Cynghorwr Annette Price ddiolch i'r Cynghorwyr am ei chynorthwyo wrth ddosbarthu taflenni. Rhoddodd y Cynghorwr Delyth Richards ddiolch i'r Cynghorwr Annette Price am yr ymdrech a'r ymrwymiad mae hi wedi rhoi i'r prosiect.
NODWYD: y pwynt uchod.

9. SWYDD WAG CYNGHORYDD.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr bod hysbysiadau wrth Gyngor Sir Caerfyrddin wedi cael eu rhoi o amgylch Betws, yn dilyn cyfarfod Mis Gorffennaf y Cyngor Cymuned, yn dweud bod yna swydd wag i Cynghorydd ar Gyngor Cymuned Y Betws, i'w llenwi yn dilyn etholiad. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod y dyddiad cau wedi mynd heibio ac mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'i hysbysu na ddangoswyd unrhyw ddiddordeb. Bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned cyfethol felly. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gydag Un Llais Cymru, sydd wedi awgrymu bod hysbysiadau yn cael eu rhoi yn y Betws i ddweud fod yna swydd wag i Cynghorydd i'w llenwi wrth gyfethol. Hefyd dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn llythyr wrth Mrs Smith yn datgan diddordeb mewn bod yn Gynghorydd Cymuned. Awgrymodd y Cynghorwr Arnallt James fod y Cyngor yn cyfethol Mrs Smith. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod hysbysiadau yn cael eu rhoi yn y Betws. Cafwyd pleidlais a chafwyd penderfyniad unfrydol i osod hysbysiadau yn y Betws.

Awgrymodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Mrs Smith i ddweud bydd ei llythyr yn

cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn rhoi hysbysiadau dwyieithog o gwmpas y Betws i ddweud bod yna swydd wag ar y Cyngor.

10. ARCHIFO FFEILIAU HEN.
Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr os all archifo ffeiliau, cofnodion ariannol, dogfenni cynllunio ayyb. Mae'r Clerc wedi siarad gyda'r Adran Archifo o Gyngor Sir Caerfyrddin sydd yn cynnig gwasanaeth archifon di-dâl. Mae'r Clerc wedi siarad gydag Un Llais Cymru sy'n cefnogi Cynghorau Cymuned i archifo eu ffeiliau sydd dros 7 mlwydd oed. Cytunodd y Cynghorwyr fod y Clerc yn gallu archifo'r ffeiliau sydd dros 7 mlwydd oed, a bod hi'n cadw rhestr o'r ffeiliau mae hi wedi 'u harchifo.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gallu archifo ffeiliau sydd dros 7 mlwydd oed.

11. TIR GER HEOL Y FELIN, BETWS.
Adroddodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Cyfreithwyr Cyngor Sir Caerfyrddin yn methu helpu gyda'r 'anrheg o dir' oherwydd mae angen y weithred berchnogaeth wreiddiol ar gyfer y tir ger Heol Y Felin, Betws. Mae'r Clerc wedi siarad gyda'r Gofrestfa Dir sydd wedi dweud fod y Cyngor Cymuned yn gallu cofrestru'r tir a bod Cyfreithiwr yn medru gwneud hyn. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod Cyfreithwyr Un Llais Cymru yn edrych ar y weithred. Awgrymodd y Cynghorwr Keith Rees fod y Clerc yn danfon copïau o'r dogfennau sydd ganddi at Gyfreithwyr Un Llais Cymru, i weld os medrant helpu'r Cyngor Cymuned. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: fod y Clerc yn danfon copïau o'r dogfennau at Gyfreithwyr Un Llais Cymru.

12. UNRHYW FATER ARALL.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi siarad gyda Mrs James Pennaeth Ysgol Y Betws, a'i bod yn barod i ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned i roi'r gwybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiadau/ gweithgareddau sy'n cymryd lle yn Ysgol Y Betws.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn gwahodd Mrs James i gyfarfod nesaf y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur os oes un o'r Cynghorwyr am drefnu prynu torch ar gyfer yr 11eg o Dachwedd. Dywedodd y Cynghorwr Arnallt James ei fod ef yn mynd i ddelio gyda hyn.
PENDERFYNWYD: bod y Cynghorwr Arnallt James yn trefnu prynu torch ar gyfer yr 11eg o Dachwedd. Bydd rhaid i'r Clerc danfon copi o logo lliw Cyngor Cymuned Y Betws at y Cynghorwr Arnallt James er mwyn iddo gael ei roi yng nghanol y dorch.

Adroddodd y Cynghorwr Audrey Jones fod sbwriel yn cael ei ollwngl ger y garej yng Nghae Mawr, Betws. Hefyd adroddodd fod sbwriel yn cael ei ollwng ar lan yr afon ym Mharc Betws gan drigolion y pentref a hefyd gweithwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin sy'n dodi porfa wedi'i dorri yna hefyd.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyddin.

Adroddodd y Cynghorwr Keith Rees ei fod wedi derbyn manylion y groes i'r Eglwys wrth y Cynghorwr Annette Price. Mae e' wedi danfon bant am bris ond nid yw e' wedi derbyn pris hyd yn hyn.
NODWYD: y pwynt uchod.

Roedd y Cynghorwr Audrey Jones wedi'i hesgusodi ei hun o'r Cyfarfod cyn bod yr adroddiad eithriedig yn cael ei drafod.